*"Rwy'n pryderu am ddisgybl EAL yn fy nosbarth nad yw i'w weld yn gwneud y cynnydd priodol "*

## Beth y gall yr ysgol ei wneud?

Siarad â'r rhieni i gael rhagor o wybodaeth am addysg flaenorol y disgybl, ei anghenion meddygol a'i bresenoldeb etc.

Defnyddio digon o strategaethau gwahaniaethau i ychwanegu cyd-destun. Defnyddio deunyddiau gweledol , strategaethau clywedol a chinesthetig DARTS.

Ystyried trefniadau grwpio disgyblion a'u lleoliad yn y dosbarth. Gofalu bod disgyblion EAL yn eistedd wrth ymyl disgyblion sydd â sgiliau ieithyddol cryf er mwyn iddynt eu hefelychu a meithrin eu sgiliau eu hunain.

Sôn am eich pryderon wrth eich arbenigwr EAL.

## Beth y gall y Gwasanaeth EAL ei wneud?

Rhoi enghreifftiau o strategaethau gwahaniaethu addas.

Asesu eu gallu i siarad Saesneg ac awgrymu targedau datblygu iaith.

Cynnig ymyriadau iaith a llythrennedd tymor byr os yw hynny'n briodol. Os oes gan y disgybl EAL anghenion dysgu ychwanegol hefyd, gall y gwasanaeth helpu'r ysgol i gydgysylltu â'r gwasanaethau AD.

*"Mae gennyf grŵp o ddisgyblion EAL yn fy ysgol ac nid wyf yn siŵr a ydynt yn cyflawni eu potensial llawn"*

## Beth y gall yr ysgol ei wneud?

Siarad â'r gwasanaeth EAL a chwblhau Adolygiad EAL sy'n ystyried data'n ymwneud â chynnydd, cyrhaeddiad a gwerth ychwanegol.

Nodi meysydd sy'n peri pryder/llwyddiant.

Sicrhau bod cynlluniau ysgol gyfan a'r dulliau dysgu'n addas i anghenion disgyblion EAL.

Archwilio gwybodaeth a gallu staff. Os oes angen, trefnu hyfforddiant a/neu gymorth gan gynghorwyr.

Gwneud cais i ddysgu adrannau neu grwpiau blwyddyn penodol mewn partneriaeth.

## Beth y gall y Gwasanaeth EAL ei wneud?

Dadansoddi data bob chwe mis.

Cynorthwyo'r ysgol drwy broses adolygu EAL.

Dewis aelod o staff i weithio gydag adran neu grŵp blwyddyn penodol.

Cynnig hyfforddiant amrywiol - cynradd ac uwchradd.

# Y Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL)



**Ffôn: 01352 703916**

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

## Y prif egwyddorion

Diben y gwasanaethau EAL yw hyfforddi a chynorthwyo ysgolion i'w galluogi i ddiwallu anghenion disgyblion EAL a sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial.

Bydd y gwasanaeth yn gweithio i sicrhau bod pob disgybl EAL yn integreiddio yn yr ysgol. Gall hyn gynnwys gweithio gyda'r rhieni a'r gofalwyr.

Gwaith monitro a dadansoddi data, a hynny mewn partneriaeth â'r ysgolion, fydd yn sail i system dryloyw a theg o gynorthwyo disgyblion ac ysgolion Sir y Fflint.

Bydd y Gwasanaeth yn cynnig y cyngor a'r hyfforddiant diweddaraf gan arbenigwyr gwybodus.



## Cwestiynau cyffredin

***"Mae rhieni wedi cysylltu â'r ysgol yn gofyn am le i'w plentyn. Dydyn nhw ddim i'w gweld yn siarad llawer o Saesneg!"***

### Beth y gall yr ysgol ei wneud?

Helpu'r rheini i lenwir ffurflen derbyn disgyblion ar-lein (a defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn os oes angen).

Nodi enw, iaith, dyddiad geni ac oedran y plentyn a manylion  a rhif ffôn y rhieni. Trefnu i gysylltu â nhw eto ar ôl i'r gwaith papur gael ei brosesu .

Cysylltu â'r gwasanaeth EAL i drefnu cyfarfod ar y cyd â'r rhieni. Y nod fydd casglu gwybodaeth fanwl a fydd yn helpu'r ysgol i benderfynu sut fyddai'n ffordd orau i'r plentyn integreiddio  yn yr ysgol.

### Beth y gall y Gwasanaeth EAL ei wneud?

Bod yn bresennol yn y cyfarfod derbyn disgybl.

Dangos sut i ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu neu gynnig cymorth dwyieithog os yw ar gael.

Cynnig rhestr o gwestiynau priodol i ofyn i'r rhieni i helpu'r plentyn i integreiddio'n llwyddiannus.

Provide ideas and resources for class teachers.

***"Mae gennyf ddisgybl EAL newydd yn fy nosbarth ac nid yw'n siarad Saesneg. Nid yw'n deall dim!"***

### Beth y gall yr ysgol ei wneud?

Peidiwch â chynhyrfu! Ceisiwch gynnwys y disgybl ym mywyd yr ysgol. Mae'n debyg y bydd ganddo / ganddi sgiliau ym maes mathemateg, addysg gorfforol, cyfrifiaduron a phynciau creadigol.

Dewiswch fydi i'r disgybl EAL ac ystyried yn ofalus lle i'w roi i eistedd / grwpiau.

Dysgwch ychydig o eiriau ym mamiaith y plentyn a defnyddio dulliau cyfieithu / geiriaduron.

Defnyddiwch luniau, dulliau dysgu gweledol, fideos a symudiadau. Siaradwch yn gliriach ac yn arafach. Cyflwynwch weithgareddau i'w helpu i ddatblygu geirfa.

Gofynnwch am hyfforddiant a/neu gyngor.

### Beth y gall y Gwasanaeth EAL ei wneud?

Rhoi cymorth bugeiliol, emosiynol cychwynnol.

Asesu ei sgiliau Saesneg a gweithio gyda grwpiau i'w helpu i integreiddio ac i ddysgu Saesneg sylfaenol.

Awgrymu adnoddau a strategaethau i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth .

Cynnig lle ar gwrs hyfforddi neu hyfforddiant i'r ysgol gyfan.